**TAFLEN WYBODAETH (DRAFFT)**

**Pwy yw'r Pwyllgor Safonau?**

Maer' Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol. Mae'n cynnwys

- 5 Aelod Annibynnol (nad ydynt yn aelodau o Gyngor Gwynedd nag unrhyw gyngor tref neu gymuned). Bydd Cadeirydd a'r Is-gadeirydd y Pwyllgor yn dod o blith yr aelodau yma.
- 3 Aelod Etholedig sy'n gynghorwyr Gyngor Gwynedd
- 1 Aelod Cymunedol sy'n aelod o gyngor tref neu gymuned

**Pam bod y Pwyllgor Safonau yn ystyried y gŵyn yma?**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am ymchwilio i gwynion fod aelodau Cyngor Gwynedd neu un o gynghorau cymuned, tref neu ddinas Gwynedd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad gall gyfeirio'r gwyn at y Pwyllgor Safonau am benderfyniad.

**Beth fydd yn digwydd?**

Mae 2 gam posib i'r broses:

Cam 1.

Yn gyntaf rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod i benderfynu, ar sail adroddiad ysgrifenedig yr Ombwdsmon, os oes unrhyw dystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad. Os yw'n credu bod tystiolaeth o'r fath yna rhaid bwrw ymlaen i gynnal gwrandawiad, fel y gall y cynghorydd gael cyfle i gyflwyno ei sylwadau i'r Pwyllgor. Ni fydd y cam cyntaf yma yn digwydd yn gyhoeddus.

Cam 2.

Y Gwrandawiad. Cynhelir cyfarfod o'r Pwyllgor i ystyried y dystiolaeth a phenderfynu os yw'r cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad, ac os felly, pa gosb sy'n addas. Fel rheol bydd y gwrandawiad yn gyhoeddus a bydd cyfle i'r cynghorydd, cynrychiolydd yr Ombwdsmon gyflwyno tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig, ynghyd ag unrhyw dystion a elwir.

Cosbau

Os yw'r Pwyllgor yn penderfynu bod y cynghorydd wedi torri'r Cod ymddygiad yna gall benderfynu:

- nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach; neu
- y dylid ceryddu'r aelod; neu
- y dylid atal yr aelod yn llawn neu yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'i (h)awdurdod am gyfnod sydd ddim yn fwy na chwe mis

**Oes hawl i apelio?**

Oes. Caiff y cynghorydd ofyn am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod o dderbyn y penderfyniad ysgrifenedig ffurfiol, i Banel Dyfarnu Cymru. Bydd Llywydd y Panel yn penderfynu os dylid caniatáu i'r Aelod apelio.

Gall y Panel Dyfarnu benderfynu:

- Cymeradwyo unrhyw gosb a osodwyd, neu

- Gyfeirio'r mater yn ôl i'r Pwyllgor gydag argymhelliad bod cosb wahanol yn cael ei gosod; neu,
- Wrth-droi dyfarniad Pwyllgor

**Pryd fydd yr atal yn dod i rym?**

Bydd unrhyw gyfnod o atal yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i'r amser ganiateir i gyflwyno hysbysiad apêl ddod i ben.

Os cyflwynir apêl gan yr Aelod yna daw i rym ar ôl i'r broses honno ddod i ben,  yn ddibynnol ar ganlyniad y broses honno.

**Beth yw effaith atal?**

Ni fydd yr Aelod yn gynghorydd y cyngor perthnasol am gyfnod yr atal.  Ni fydd felly yn medru gweithredu fel cynghorydd nag yn cael mynediad i unrhyw ddarpariaethau a ddarperir gan y cyngor i aelodau yn ystod y cyfnod hwnnw. Mewn achos o atal rhannol (e.e. atal rhag bod yn aelod o bwyllgor penodol) yna bydd yr Aelod yn cael ei atal rhag gweithredu i'r graddau hynny ond fel arall yn parhau i fedru gweithredu fel cynghorydd.